

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr John E. Davies (Peniel) y penwythnos diwethaf. Bu'n flaenor yn y capel am 45 mlynedd ac fe fu'n ffyddlon a gweithgar yno ar hyd y blynyddoedd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r plant – Ieuan, Marian, Alan ac Einir, a gweddill y teulu yn eu profedigaeth.
- Anfonwn ein cofion at Elwy Owen (Llannefydd) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn anffawd y penwythnos diwethaf, a hefyd Bronwen Williams (Cefn Berain) sy'n parhau i gael gofal yno. Mae Kate Davies (Llansannan) a Gwenfyl Williams (Tanyfron) yn parhau yn yr Inffirmari ond mae'n dda cael adrodd fod Gwyn H. Davies (Hiraethog) wedi gwella'n ddigon da i gael dychwelyd i gartref Yr Hen Ficerdy, ac mae Morfudd Williams (Henllan) wedi mynd i gartref Dolwen yn Ninbych am gyfnod. Cofiwn hefyd am eraill o'r Fro sydd wedi cael llawdriniaethau ac am y rhai sy'n derbyn triniaethau tymor hir ar hyn o bryd. Gweddïwn y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur i'r cleifion oll yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau hwyr (!) i Iola Roberts (Llansannan) a Wyn ar enedigaeth merch, Cerian Gwen, chwaer fach i Elaine a Deian. Gweddïwn dros y teulu, ac ymunwn gyda hwy i roi diolch i Dduw am ei ddaioni yn eu hanes.
- Llongyfarchiadau hefyd i Eifion M. Jones (Llansannan) sydd wedi ennill gwobr y Gogledd Orllewin a'r Alban gan *Halifax Giving Extra* am ei waith gwirfoddol i'r gymuned.

I ddod

- **CLWB CINIO NESAF YN LLANNEFYDD** dydd Gwener, Chwefror 12fed am 11.45.
- **CYMDEITHAS LLANSANNAN** yn mynd i Noson Ddramau yng Nghapel Bethania, Rhuthun nos Lun, Chwefror 15fed am 7.30. Enwau i Bethan (870374) erbyn **nos Sul, Chwefror 7fed** er mwyn archebu tocynnau.
- **DILLADU MERCH AR DRAWS Y BYD** Yn dilyn llwyddiant y noson yn y Festri yn Llansannan ym mis Tachwedd, bydd cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno i fynd i Ganolfan 'HWB Dinbych' bore dydd Mawrth, Chwefror 16eg o 9:00 – 12:30 i bwytho mwy o ffrogiau a siorts (patrwm syml gan ddefnyddio cas gobennydd), ac i weu tedi i'w rhoi ym mhoced y dilledyn. Dewch â chas gobennydd a thaclau gwnïo/gweu hefo chi. (Mae digon o beiriannau gwnïo yno.) Fe fydd Llinos Roberts (Cefn Meiriadog) a Dawn Wilks (Llansannan) yno i roi arweiniad i ni. Croeso i bawb o bob oed!
- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-11)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 19eg–21ain. Yma eto, mae £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala **erbyn Chwefror 5ed**.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Henllan nos Fercher, Mawrth 23ain am 7.30 yng nghwmni Mrs Carys Davies, Cydlynnydd Rhaglen Dorcas yn y Gogledd.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 31^{ain} Ionawr 2016

Darlleniad y Dydd

Salm 119: 25-32

(BCND tud.560 / BCN tud.512)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i'r pumed Sul yn Ionawr! Cofiwch fod Oedfa'r Fro heno ar daith a byddwn yn cynnal yr oedfa yng Nghapel Meiriadog. Edrychwn ymlaen at hynny ac os na fuoch erioed yng nghapel Cefn, beth am ddod heno? Mae'n gapel hardd, mae 'na groeso brwd bob amser ac mae'n gyfle newydd i addoli Duw a'i geisio hefo'n gilydd. Un o fanteision mynd ar daith ydi cael cyfarfod ein cyd-aelodau yn y pentrefi amrywiol sy'n ffurfio'r Fro a chael rhannu hefo nhw rai o'r bendithion rydan ni wedi eu profi yn ddiweddar o law yr Arglywydd.

Mae'n profiad o fendithion Duw yn amrywio wrth i'w Rhagluniaeth ein heffeithio mewn ffyrdd gwahanol. Mae'n debyg rhywsut i'r hyn sydd yn wir am y storm sydd wedi effeithio ar ein tywydd yr wythnos yma – storm Jonas. Yn America mae'r storm wedi dod ag eira mawr yn ei sgil. Eira anghyffredin o drwm sydd wedi parlysu nifer o ddinasoedd enwog America. Gwelsom bobl yn sownd yn eu ceir, yr heddlu yn rhybuddio pobl rhag teithio a silffoedd y siopau yn wag wrth i bobl lenwi eu cypyrddau. Ond wedyn, pan ddaeth cynffon y storm yma i Gymru, gwynt a glaw a gawsom ni ac amryw o ardaloedd dan ddŵr unwaith eto. Yr un storm ond yn dangos ei hun mewn ffyrdd gwahanol ac yn cael dylanwad gwahanol.

Mae Rhagluniaeth Duw yr un ond mae'n dangos ei hun mewn gwahanol ffyrdd. Cofiwn eiriau emyn enwog David Charles (Cff 114) "*Mae'n tynnu yma'i lawr, yn codi draw.*" Mae'n gymharol rhywydd credu yn Nuw pan mae bendithion Duw yn ein codi a Rhagluniaeth Duw fel petai o'n plaid, ond beth sydd yn wir am ein cred a'n ffydd pan mae amgylchiadau yn ein tynnu i lawr a Rhagluniaeth Duw yn ymddangos fel petai hi yn ein herbyn?

Dyma pryd mae'r Beibl yn dod yn bwysig i ni eto. Petaen ni ond yn edrych ar ein hamgylchiadau – hynny yw, byw ein bywyd heb ddarllen y Beibl, yna dryslyd iawn fyddwn ni a siomedig. Ond wrth ddarllen y Beibl yn gyson rydym yn gallu cael golwg wahanol ar ein hamgylchiadau a chawn ein dysgu i weddio ac i ymddiried yn Nuw. Dyma eiriau o'r Salm sydd yn y darlleniad heddiw: "*Gad i mi ddeall sut mae byw yn ffyddlon i dy ofynion, a bydda i'n myfyrio ar y pethau rhyfeddol rwyt ti'n eu gwneud. Mae tristwch yn fy lladd i! Cod fi ar fy nhraed fel gwnest ti addo!*"

Mae'r salmydd yn rhoi esiampl dda i ni – mae'n cydio yn addewidion tragwyddol Duw wrth i'w amgylchiadau newid gan gredu mai Duw ffyddlon sydd ganddo. Mae'n dymuno cadw Gair Duw yn ei fywyd a gweddi yn ei galon. Beth am i ni ddarllen un o'r salmau heddiw wrth i ni wynebu'r dydd er mwyn i ni gael ein codi trwy Air Duw?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Anwrin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 31^{ain}
- **Oedfa'r Fro ar Daith** am 6.00 yng Nghefn Meiriadog. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth – 2^{il}
- Mercher – 3^{ydd}
- lau – 4^{ydd}
- Gwener – 5^{ed}
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
 - **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 7.30. (Paned am 7.15)
 - **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
 - **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol Bl.7-9) yn mynd i Fowlio Deg ym Mhafiliwn Jade Jones yn y Fflint (*sylwch ar y newid lleoliad*). Cychwyn o faes parcio'r capel yn Llansannan am 6.15. Enwau i Gwion a Sarah erbyn dydd Mercher, os gwelwch yn dda, er mwyn cael trefnu'r teithio.
- Gwener – Sul
5^{ed} – 7^{fed}
- **Penwythnos plant Gofalaeth Bro Aled (8–12 oed)** yng Ngholeg y Bala. Os nad ydych eisoes wedi archebu lle, plis gwnewch hynny mor fuan â phosib gan anfon blaendâl o £10. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled.
- Sadwrn – 6^{ed}
- Sul nesaf – 7^{fed}
- **DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn y Bala.
 - Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah a'r ieuenctid, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 31^{ain}
- Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn i'r Teulu yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Bydd Oedfa'r Fro yn dod ar daith i Gefn Meiriadog am 6.00. Croeso cynnes i bawb. Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.30.
- Sul nesaf – 7^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma – 31^{ain}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf – 7^{fed}
- Bydd Sarah yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 31^{ain}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 7^{fed}
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 31^{ain}
- Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.
- Sul nesaf – 7^{fed}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith ym Mheniel am 10.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 31^{ain}
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 7^{fed}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 31^{ain}
- Bydd y Parch. John Pritchard yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.
- Llun – 1^{af}
- Cynhelir cyfarfod o Gymdeithas y Chwirydd yng Nghefn Berain am 2.00 yng nghwmni Sarah Dafydd.
- Gwener – 5^{ed}
- Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf – 7^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.

Manylion Cyswilt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📞 07775 701102
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07849 591163
- Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07900 308461
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Darllenid Wythnos Nesaf

Salm 119: 41-48 (BCND tud.561 / BCN tud.512)

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.